# traveltrade.visitwales.com
# meetinwales.com
## Cynghorion da ar sut i greu cofnod da

Mai 2021


## 1.1 — Sut mae diweddaru'r wybodaeth amdana i ar traveltrade.visitwales.com a meetinwales.com?

Bydd angen ichi fewngofnodi ar https://rhestrucynnyrch.cymru i ddiweddaru manylion eich busnes, gan gynnwys y disgrifiad, y lluniau a'ch cyfleusterau.

Bydd angen eich ID Cyswllt, eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair. Gallwch lenwi pob rhan o'ch cofnod trwy fewngofnodi'n ddiogel heb help y Stiwardiaid Data, er eu bod wrth law rhag ofn y bydd angen eu help arnoch chi.

Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer rhestr Diwydiant Teithio a/neu Ddigwyddiadau Busnes, cysylltwch â TravelTradeWales@llyw.cymru neu MeetinWales@llyw.cymru

Os oes gennych restrau ar gyfer nifer o gynnyrch, gallwch newid yn hawdd rhyngddynt o'r un cyfrif gan ddefnyddio'r gwymplen ar dop y sgrin.




## 1.2 — Cymorth

Os oes gennych gwestiynau cyffredinol, cysylltwch â Stiwardiaid Data Croeso Cymru vw-steward@nvg.net | 0330 808 9410 neu drwy sgwrs fyw.

**Os gwelwch broblem, dilynwch y camau hyn:**

**01**
Darllenwch y cofnod amdanoch chi ar y Rhestr Cynnyrch

**02**
Cysylltwch â'r Stiward Data gan ddefnyddio'r manylion cysylltu uchod

**03**
Bydd y Stiward Data'n ymchwilio i'r mater ac yn cael sgwrs â chi

**04**
Os nad oes modd ei datrys, bydd y Stiward Data'n nodi amgylchiadau'r broblem

**05**
Os yw'n fater newydd, bydd y Stiward Data'n anfon y manylion at brif swyddog data Croeso Cymru

**06**
Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair cliciwch ar y botwm wedi anghofio'ch cyfrinair a bydd hyn yn anfon cyfrinair newydd atoch i fewngofnodi ag ef

# —Cychwyn arni

## 01


Wedi ichi fewngofnodi i'ch cyfrif, defnyddiwch y ddewislen ar yr ochr chwith i weld a diweddaru manylion eich busnes.

## 02

Os oes gan eich busnes fwy nag un swyddogaeth, er enghraifft llety ac atyniad, fe welwch opsiwn cwymplen ar dop eich sgrin ar yr ochr chwith lle gallwch ddewis pob rhan o'r busnes yn ei dro. Gallwch gael rhestr ar gyfer yr Ymwelydd (V), y Diwydiant Teithio (T) a'r Digwyddiadau Busnes (B). Bydd angen i chi ddiweddaru'r manylion ar gyfer pob busnes ar eich cyfrif er mwyn sicrhau bod gennych y cyfle gorau i ddenu sylw pob cynulleidfa.

## 03

Gofalwch eich bod yn llenwi pob adran fel bod eich busnes yn cael pob cyfle i ddenu sylw'ch cwsmeriaid posibl. Os dylai eich ateb fod yn 'na' neu 'amherthnasol', sicrhewch eich bod yn dewis fel y bo'n briodol (peidiwch â'i adael yn wag). Bydd hyn yn sicrhau y bydd y gynulleidfa'n gallu chwilio a dod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt yn benodol.



Gweithredwr/Triniwr Y Fasnach Deithio

Llenwch bob adran, mae'n bosib y bydd y manylion hyn i gyd yn cael eu dangos ar Croeso Cymru y Fasnach Deithio. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr bod y cynnwys yn gyfoes, yn gywir ac nad yw'n gamarweiniol.

− Manylion

**Enw** *

**Dosbarthiad**

**Tref / Dinas** *

**Gwlad**

**Math Gweithredwr / Triniwr**

- ☐ Adloniant
- ☐ Asiantaeth Llety
- ☐ Dod i Mewn
- ☑ Gweithredwr Teithiau
- ☐ Gwyliau ar Fws
- ☐ Teithiau Antur
- ☐ Teithiau Cerdded
- ☐ Teithiau Golff
- ☐ Asiant Teithio Ar-lein
- ☐ DMC / Cyfanwerthwr / Triniwr Tir
- ☐ Dysgu'r Iaith Saesneg
- ☐ Gwithredwr Mordeithiau
- ☑ Teithiau ac Ymweld ag Atyniadau
- ☐ Teithiau Beicio
- ☑ Teithiau Diddordeb Arbennig
- ☐ Trafnidiaeth

**Cynnig Gweithgareddau sydd Angen Sicrhau Ansawdd**
Rydym yn adolygu prosesau sicrhau ansawdd y gweithgareddau canlynol ar hyn o bryd: byw yn y gwyllt, chwilota, marchogaeth, sgio, eirafyrddio, paragleidio, seiclo a beicio tywys, abseilio, ogofa, ogofa dan ddaear, dringo, sgramblo, archwilio ceunentydd, wifren wib, rhaffau uchel, teithiau cerdded tywys, cyfeiriannu, canwio, arforgampau, caiacio, barcudfyrddio, chwaraeon dwr modur, hwylio, sgwba-blymio, padlfyrddio ar eich sefyll, syrffio, rafftio dwr gwyn neu hwylfyrddio. Ydych chi'n cynnig unrhyw un o'r gweithgareddau hyn? Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnom, byddwn yn cysylltu â chi.

○ Ydy ○ Na ◉ N/A

**Rhanbarthau Gweithredol**


- ☑ Cymru gyfan
- ☑ Canolbarth Cymru
- ☑ De-ddwyrain Cymru
- ☑ Rhannau eraill o'r DU
- ☑ Gogledd Cymru
- ☑ De Orllewin Cymru
- ☑ Caerdydd

**Gwerthu'n Brysur Yn**

- ☑ Cymru
- ☑ Yr Alban
- ☐ Gweriniaeth Iwerddon
- ☐ Canada
- ☐ Awstria
- ☐ Gwlad Belg
- ☐ Ffrainc
- ☑ Lloegr
- ☐ Gogledd Iwerddon
- ☐ UDA
- ☐ Yr Almaen
- ☐ Y Swistir
- ☐ Sbaen
- ☐ Yr Iseldiroedd

+ Cyswllt y Fasnach Deithio
+ Sicrhau
+ Gwybodaeth
+ Ieithoedd
+ Manylion Taith
+ Cyfraddau Arbennig

Cadw



− Gwybodaeth

Dylai'r disgrifiad llawn dynnu sylw at nodweddion y busnes a fydd yn annog ymweliadau gan y fasnach deithio ac, os yn berthnasol maes o law, defnyddwyr sy'n defnyddio gwefan Croeso Cymru megis gweithgareddau ar gael/teithiau preifat, amlder teithiau, ayb. Ysgrifennwch eich disgrifiad mewn paragraffau byr, osgowch ddefnyddio llythrennau bras ac ailadrodd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn meysydd eraill. Dylai'r disgrifiad byr grynhoi'r disgrifiad llawn yn hytrach na'i ailadrodd.

**Disgrifiad Llawn**
(0 nodau - dim cyfyngiad)

**Disgrifiad Byr**
(0 nodau - uchafswm 240 nodau)

**Gwerthu B2B** ○ Ydy ○ Na ○ N/A

**Gwerthu B2C** ○ Ydy ○ Na ○ N/A

**Darparu ar gyfer Grwpiau** ○ Ydy ○ Na ○ N/A

**Darparu ar gyfer FIT** ○ Ydy ○ Na ○ N/A

+ Ieithoedd
+ Manylion Taith
+ Cyfraddau Arbennig

Cadw

## 04

Gellir ychwanegu defnyddwyr ychwanegol at y proffil i gwblhau gwahanol gofnodion busnes.
I wneud hyn ewch i'r cyfrif ar https://rhestrucynnyrch.cymru o dan Fy Manylion Mewngofnodi > Defnyddwyr.

# —Awgrymiadau gwych

## 01

Gofalwch fod gennych y manylion diweddaraf wrth law a gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi popeth.

## 02


Gofalwch fod y ramadeg a'r sillafu yn gywir.

## 03

Rhowch yr wybodaeth bwysicaf ar dop eich cofnod a chofiwch enwi'ch tre/ardal/rhanbarth agosaf; capasiti; niferoedd y grŵp teithio; math o ystafell – gwelyau dwbl, pâr o welyau, gwelyau sengl; manylion parcio.


## 04

Byddwch yn gryno rhag i'r darllenydd golli diddordeb.




## 05

Gwell osgoi rhai disgrifiadau generig, er enghraifft, bro hudol a thrysorau cudd.




## 06

Am help/cyngor a chynghorion da ar sut i wneud y gorau o 'Frand Cymru': http://bit.ly/CWcpWBc19

## 07

Os bydd defnyddiwr yn defnyddio Google neu fotwm chwilio'r safle, mae'n hanfodol dewis Geiriau Allweddol er mwyn chwilio'n effeithiol. Cofiwch roi'r geiriau allweddol pwysicaf yn y disgrifiad byr gan mai hwn fydd yn cael ei chwilio gyntaf a rhowch y geiriau allweddol hynny eto yn y disgrifiad hir. Fodd bynnag, peidiwch ag ailadrodd geiriau'n rhy aml gan fod Google yn glyfar ac yn gwybod beth ydych yn ceisio'i wneud. Cofiwch y bydd eich geiriau allweddol yn wahanol yn dibynnu ar ba restr rydych chi'n ei chwblhau.

## 08

Meddyliwch am y geiriau y byddai'ch cwsmeriaid yn chwilio amdanyn nhw neu well byth, gofynnwch i'ch hen gwsmeriaid sut y bydden nhw'n disgrifio'ch busnes.


1.4


## 09

Cofiwch addasu eich disgrifiad cwmni ar gyfer cynulleidfa'r Diwydiant Teithio a Digwyddiadau Busnes a chynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan ei chadw'n gryno. Cofiwch na fydd darllenwyr eich rhestr yn debygol o fod yn teithio i Gymru eu hunain, felly dylai eich testun adlewyrchu hyn, h.y. bydd eich cleientiaid yn ymweld â Pharc Cenedlaethol Eryri yn hytrach nag y byddwch chi'n ymweld â Pharc Cenedlaethol Eryri.

## 10


Cynulleidfa broffesiynol o farchnadoedd domestig/rhyngwladol fydd gan y Diwydiant Teithio a Digwyddiadau Busnes, felly dylai'r iaith fod yn fwy ffurfiol h.y. iaith byd busnes yn Saesneg heb slang nac ymadroddion llafar.








## 11

I gael rhagor o wybodaeth am eich rhestr Diwydiant Teithio, gan gynnwys diffiniadau o fathau o weithredwyr, ewch i https://www.visitwales.com/info/travel-trade/useful-information/toolkit/register-your-product



## 1.5 —Lluniau a fideos
## Sut i uwchlwytho lluniau a fideo




### 01

Os oes gennych restr ar gyfer Ymwelwyr mae opsiwn i gopïo delweddau newydd i gofnodion Diwydiant Teithio a Digwyddiadau Busnes. Cofiwch y bydd angen i chi newid unrhyw rai nad ydynt yn briodol i'r gynulleidfa h.y. ar gyfer Digwyddiadau Busnes efallai yr hoffech dynnu sylw at eich mannau cyfarfod a/neu gynigion ar gyfer adeiladu tîm a pheidio â chynnwys plant yn y delweddau.

### 02

Fel ag y mae'r offeryn rhestru cynnyrch yn dweud wrthych, dewiswch ffoto 'ar draws' sydd o leiaf 1920 picsel wrth 1440 picsel (byddai ffoto sydd wedi'i dynnu ar ffôn symudol yn iawn fel arfer). Bydd y system yn newid eich ffoto i'r maint cywir yn awtomatig. Edrychwch arno ar y sgrin i wneud yn siŵr ei fod yn iawn cyn ei gadw.

### 03

Ychwanegwch deitl a thestun amgen disgrifiadol sy'n disgrifio'r llun. Caiff hyn ei ddefnyddio gan Google a pheiriannau chwilio eraill.

### 04

Gofalwch nad yw'r ffeil yn fwy na 4 megabeit. Mae'n arfer da defnyddio ffeil mor fach â phosibl.

### 05

Rhowch ffoto 'ar draws', nid 'ar i fyny'.

### 06

Caiff y 10 llun mawr cyntaf eu defnyddio. Defnyddiwch y llaw i lusgo ac aildrefnu'r lluniau fydd yn cael eu dangos ar Croeso Cymru. Meddyliwch am drefn y lluniau. Y llun y byddwch yn ei roi gyntaf yn eich rhestr o luniau fydd y cyntaf i gael ei weld ar y carwsél.

### 07

Os nad yw'r holl luniau mewn fformat mawr, bydd y llun cyntaf yn ymddangos yn fawr yn y pennyn, a'r lluniau olynnol yn ymddangos mewn carwsél fformat bach.

### 08

Defnyddiwch y 10 llun rydych yn gallu'u cyhoeddi gan y byddan nhw'n helpu'ch gwestai/gwesteion i wneud eu penderfyniad, ac yn eu cadw ar eich cofnod. Peidiwch â rhoi mwy nag un llun o'r un peth.

### 09

Dewiswch y fideo rydych am ei rhoi ar YouTube a chopïwch y cod cyfeirio ac ychwanegu teitl sy'n disgrifio'r fideo'n gywir (efallai y bydd Google am ei mynegeio). Cliciwch y botwm chwarae i wneud yn siŵr bod y cod yn gywir. Dim ond un fideo y cewch ei dangos ar Croeso Cymru. Bydd y fideo yn ymddangos ar eich tudalen rhestrai mewn diweddariad i'r wefan yn y dyfodol.

## 1.6 —Lluniau a fideos

### Canllaw i'r Lluniau

Rydych chi eisiau i'r farchnad Diwydiant Teithio / Digwyddiadau Busnes ddewis eich busnes a chlicio i weld eich manylion. Ceisiwch feddwl am eich rhestr fusnes o safbwynt darpar ymwelwyr. A fyddech chi'n bwcio llety ar sail geiriau yn unig?

Meddyliwch pa un y byddech chi'n ei ddewis:

a) Yr un â lluniau o safon wael/yr un heb luniau
b) Yr un â llawer o luniau o safon uchel

Mae'r penderfyniad yn un rhwydd ond gofalwch eich bod yn defnyddio'r lluniau gorau sydd gennych a'u bod yn cyfleu'r gwir. Os oes gennych ddigon o arian, beth am ddefnyddio ffotograffydd proffesiynol gan y byddech yn gallu defnyddio'i luniau ar eich gwefan, y cyfryngau cymdeithasol a'ch gweithgarwch marchnata arall.

Os nad oes a bod gennych ffôn clyfar, y peth hawsaf ichi fyddai eu tynnu ar hwnnw a'u llwytho i fyny eich hunan.

### 01

Cymerwch luniau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn a newidiwch drefn y lluniau'n rheolaidd fel bod eich cofnod wastad yn edrych yn gyfoes. Er enghraifft, byddai llun o lolfa glyd a thân coed braf yn wych ar gyfer gwyliau'r gaeaf.

### 02

Cadwch bethau'n llachar trwy dynnu lluniau yn ystod y dydd – gadewch y goleuni naturiol i mewn a throwch y goleuadau ymlaen hyd yn oed.

### 03

Dangoswch elfennau sy'n unigryw i'ch busnes e.e. golygfa dda.

### 04

Os ydych chi'n byw ar bwys atyniad da, rhowch ffotos ohono ond gofalwch eich bod yn cael caniatâd ac felly'r hawlfraint i wneud hynny.

### 05

Os oes gennych ddelweddau o ddigwyddiadau busnes neu ymweliadau grwpiau blaenorol yn cael eu cynnal a bod gennych ganiatâd i'w defnyddio, yna gall cynnwys y rhain fel elfen ddynol fod o gymorth mawr.

### 06

Ystyriwch sut y bydd cynulleidfa'n gweld delweddau mewn byd gwahanol lle mae diogelwch a sicrwydd yn bwysig; dewiswch ddelweddau'n ofalus i wneud i gleientiaid a'u gwestai deimlo'n gyfforddus i ddewis eich busnes.

## 1.7 —Adran y 'Dolenni Allanol' Cyfryngau Cymdeithasol

Mae dolenni allanol ar gael nawr ichi eu hychwanegu at eich cofnod:

—Facebook

—Instagram

—Twitter

—Pinterest

—YouTube

Y cyfan sydd angen ichi ei wneud yw ychwanegu cyfeiriad cyfryngau cymdeithasol a bydd yn all-gysylltu i'ch cyfrif cyfrwng cymdeithasol.

Mae cadw'ch bys ar byls y cyfryngau cymdeithasol yn hanfodol hefyd er mwyn marchnata'ch hunan a'ch cofnod.

## 1.8 —Adran y 'Dolenni Allanol' Doleni bwcio

I gwblhau'r adran 'dolenni bwcio' sydd i'w gweld o dan 'dolenni allanol', newidiwch rhwng 'dolenni'r cyfryngau cymdeithasol' a 'dolenni archebu' drwy ddewis y gwymplen.

Ni ddylech ond lenwi'r maes 'Archebu'n Uniongyrchol', oni bai fod gennych blatfform dosbarthu Busnes i Busnes (B2B). Fe'ch cynghorir i gynnwys yma y ddolen orau ar gyfer y gynulleidfa e.e. eich tudalen wybodaeth ar gyfer y Diwydiant Teithio, tudalen gwybodaeth am archebion grŵp, tudalen wybodaeth am gynadleddau/cyfarfodydd a/neu gymhellion neu eich tudalen gyswllt fwyaf priodol sy'n cynnwys manylion eich cynghorwyr gwerthu ar gyfer archebion grŵp neu ddigwyddiadau.

Nid yw cwmnïau'r Diwydiant Teithio a Digwyddiadau Busnes yn debygol o archebu drwy borth archebu ar-lein boed yn uniongyrchol neu drwy drydydd parti, oni bai ei fod yn blatfform dosbarthu Busnes i Busnes (B2B). Ni ddylech felly gynnwys y dolenni hyn yn eich rhestriad.

## 1.9 —Opsiynau o ran iaith

Mae opsiwn cyfieithu ar gael ar gyfer y Gymraeg ac Almaeneg.

Nodwch nad yw hyn yn berthnasol i restriadau Digwyddiadau Busnes a'r Diwydiant Teithio gan fod y gwefannau hyn yn Saesneg yn unig ac ar gyfer cynulleidfa fyd eang.

## 1.10 —Gweld ystadegau'r wefan

Os oes gennych fusnes 'gwarant ansawdd' (Croeso Cymru neu Gynlluniau AA yn unig), byddwch yn cael cofnod yn awtomatig ar visitwales.com (y wefan ar gyfer ymwelwyr) ond bydd angen i chi ofyn am gael eich cynnwys ar wefannau Diwydiant Teithio a Chwrdd yng Nghymru drwy gysylltu â TravelTradeWales@llyw.cymru / MeetinWales@llyw.cymru

Bydd y ddewislen ystadegau'n dangos ystadegau misol o sawl gwaith mae pobl wedi bod yn eich cofnod ar wefan Croeso Cymru.

WG42652 / © Hawlfraint y Goron 2021 OGL